



DYFODOL DISGLAIR

Ein gweledigaeth ar gyfer
2021 i 2026



Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Hawdd ei Ddeall Cymru**.
Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o **Dyfodol mwy disglair – Ein
gweledigaeth 2021-26**.

Chwefror 2021

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Mae hon yn fersiwn hawdd ei darllen. Ond efallai y bydd angen cefnogaeth arnoch o hyd i ddarllen a deall y ddogfen hon. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Efallai y bydd rhai geiriau'n anodd eu deall. Maent mewn **ysgrifennu glas** beiddgar. Fe'u hesboniwyd mewn blwch islaw'r gair.



Os defnyddir y gair caled eto mae mewn **ysgrifennu glas arferol**. Gallwch wirio beth maen nhw'n ei olygu ar **dudalen 31**.



Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Gyrfa Cymru Careers Wales**. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

Gwefan: <https://gyrfacymru.llyw.cymru>

E-bost: post@careerswales.gov.wales

Ffôn: 0800 028 4844



Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

Cynnwys

2 Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon

4 Pwy ydyn ni

6 Cyflwyniad

8 Y ffordd rydyn ni'n gweithio

9 Ein gwerthoedd

10 Ein nodau

14 Y pethau rydyn ni am eu cyflawni

15 Helpu unigolion

16 Cefnogi pobl mewn amser anodd

19 Helpu lles yng Nghymru

20 Gwneud ein gwasanaethau yn well

22 Gweithio'n ddigidol

23 Cefnogi Llywodraeth Cymru

25 Cefnogi pobl o bob oed

26 Gweithio gyda phobl eraill

27 Cynnwys pawb

29 Gwneud yn siŵr bod ein gwasanaethau'n

gweithio'n dda

31 Geiriau anodd

Pwy ydyn ni



Gyrfa Cymru Careers Wales yw ein henw. I wneud yr enw'n fyrrach rydyn ni'n galw ein hunain yn **Gyrfa Cymru** yn Gymraeg.

Mae ein staff yn rhoi gwybodaeth am **yrfaeodd** a chynghor i bobl yng Nghymru.



Mae **gyrfa** yn waith neu'n fwy nag un gwaith mae rhywun yn ei wneud am amser hir yn ystod eu bywyd.

Gallwn ni helpu pobl i:



- gynllunio eu gyrfaeodd



- paratoi ar gyfer gwaith



- dod o hyd i gyrsiau a hyfforddiant ac ymgeisio am y rhain.



Rydyn ni'n cefnogi plant a phobl ifainc hyd at 19 oed.



Yn ddiweddar fe ddechreuon ni wasanaeth newydd sy'n cael ei alw'n **Cymru'n Gweithio**. Mae hwn yn rhoi cyngor am yrfaedd i oedolion.




Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru sy'n berchen arnon ni.



Cyflwyniad



Mae'r ddogfen hon yn dweud wrthy ch chi am **ein gweledigaeth** ar gyfer Gyrfa Cymru. Mae **ein gweledigaeth** yn meddwl y cynlluniau newydd sydd gennym ni ar gyfer ein gwaith.



Fe greon ni **ein gweledigaeth** gyda staff Gyrfa Cymru, cwsmeriaid a phartneriaid. Pobl sydd angen cyngor ar gyfer eu gyrfa yw ein cwsmeriaid.



Mae'r ddogfen hon yn egluro'r ffordd y mae arnon ni eisiau helpu pobl yng Nghymru i gael dyfodol mwy disglair.



Rydyn ni'n gwybod bod Covid-19 wedi newid bywydau llawer o bobl yng Nghymru.



Y mae wedi creu problemau a bydd y problemau hyn yn para am amser hir.



Mae'r ddogfen hon yn dweud wrthy ch chi sut y bydd Gyrfa Cymru yn helpu pobl yng Nghymru i ddelio â'r problemau hyn.



Mae ein gwasanaethau yn helpu pobl ifainc ac oedolion i baratoi ynghylch penderfyniadau anodd ynglŷn â gwaith.



Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod ein gwasanaeth gyrfaedd ar gael i unrhyw un sydd ei angen.



Mae ein staff yn broffesiynol ac yn fedrus. Maen nhw'n gweithio mewn ysgolion, cymunedau, y stryd fawr a gweithleoedd ar draws Cymru.



Rydyn ni'n gweithio gyda mudiadau eraill i ddod o hyd i gyfleoedd gwaith ardderchog i bobl.



Rydyn ni'n gwneud yn siŵr nad oes neb yn cael ei adael allan fel bo pawb yn medru cael dyfodol mwy disglair.

Y ffordd rydyn ni'n gweithio



Ein gweledigaeth yw creu dyfodol mwy disglair ar gyfer pobl yng Nghymru.



Ein hamcan yw cefnogi pobl ifainc ac oedolion yng Nghymru i gael dyfodol mwy disglair.

Ein gwerthoedd



- Rydyn ni'n canolbwyntio ar anghenion cwsmeriaid.



- Rydyn ni'n gweithio gyda phobl eraill i gyrraedd ein nodau.



- Rydyn ni'n greadigol ac yn defnyddio technoleg i wneud ein gwaith yn well.



- Rydyn ni'n onest ac yn deg.



- Rydyn ni'n trin pobl fel unigolion.



- Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod pawb yn cael ei gynnwys.

Ein nodau



Mae gennym ni bedwar nod i'n helpu i gefnogi pobl yng Nghymru ac i wneud yn siŵr bod pawb yn cael y cyfle i gael dyfodol mwy disglair.

Nod 1



- Byddwn ni'n cynnig ein gwasanaeth gyrfaedd yn **Gymraeg** ac yn **Saesneg**.



- Byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod ein gwasanaeth gyrfaedd yn **gynhwysol**. Mae hyn yn meddwl y byddwn ni'n cael gwared â'r pethau sy'n rhwystro pobl rhag cael ein help.



- Byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod ein gwasanaeth gyrfaedd yn **deg**.



- Gweithio'n agos gyda chyflogwyr a darparwyr hyfforddiant.



- Bydd hyn yn ein helpu i ddeall pa gyfleoedd sydd ar gael ar gyfer pobl ifainc ac oedolion.



- Bydd arnon ni hefyd eisiau dod i wybod pa fedrau sydd eu hangen ar bobl ifainc i ddod o hyd i waith.

Nod 3



Bydd arnon ni angen cefnogi ysgolion a helpu plant a phobl ifainc:



- i fod yn barod i ddysgu



- i fod yn greadigol



- i fod yn **gyfrifol**

Mae **cyfrifol** yn meddwl ymddwyn yn synhwyrol ac yn annibynnol.



- i fod â'r hyder i ymuno mewn pethau.

Nod 4



Mae arnon ni eisiau cefnogi ein staff i ddal ati i ddysgu medrau newydd. Bydd hyn yn helpu ein gwasanaeth gyrfaedd i ganolbwyntio ar y pethau sydd eu hangen ar ein cwsmeriaid.

Y pethau rydyn ni am eu cyflawni



Mae gennym ni lawer o **ganlyniadau** wedi'u cynllunio sy'n gysylltiedig â'n pedwar nod.

Canlyniad yw beth y gall rhywun ei ddisgwyl oddi wrth ein gwaith.



Mae'r rhain yn cynnwys:

- helpu pobl ifainc ac oedolion i ddeall pa fedrau sydd eu hangen arnyn nhw i wneud yn dda. Gallai hyn fod mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant.
- dweud wrth mwy o bobl am yr addysg, y gwaith a'r cyfleoedd hyfforddi sydd gennym ni yng Nghymru.
- gweithio gyda mudiadau eraill er mwyn i ni fedru cynnig cyngor ar yrfaeodd i fwy o bobl.
- gwneud yn siŵr ein bod yn edrych a yw ein gwasanaethau yn gweithio'n dda.



Helpu unigolion



Y ffordd y gwnaethon ni helpu Jon, sy'n 61 oed.

Collodd Jon ddau swydd. Gwnaeth hyn i Jon deimlo'n llai hyderus. Fe helpon ni Jon i gael arian i hyfforddi fel sieff.



Dywedodd Jon ei fod yn drist iawn cyn iddo siarad â ni yng Ngyrfa Cymru.



Ond roedd yn teimlo ein bod ni wir yn poeni amdano. Fe wnaethon ni roi hyder ynddo ef ei hun iddo eto.



Mae Jon yn teimlo nawr bod ganddo ddyfodol llawer mwy disglair ar ôl siarad â Gyrfa Cymru.

Cefnogi pobl mewn amser anodd




Cefnogi pobl mewn amser anodd



Rydyn ni'n gwybod bod dod o hyd i waith yn anodd. Mae pandemig Covid-19, **Brexit** a newidiadau mewn technoleg yn ei gwneud hi'n hyd yn oed mwy anodd.



Brexit yw'r broses sy'n digwydd wrth i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd.





Mae mwy a mwy o bobl wedi bod ag angen ein gwasanaeth gyrfaoedd oherwydd yr heriau ychwanegol hyn, gan gynnwys



- pobl sydd ddim yn cael eu talu llawer

- merched



- pobl ifainc



- a phobl o gefndiroedd du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.



I helpu pobl ifainc ac oedolion yn yr amseroedd anodd hyn, rydyn ni'n ceisio rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw yn gyflym.



Bydd hyn yn helpu i roi'r medrau a'r hyder sydd eu hangen arnyn nhw.



Helpu lles yng Nghymru

Rydyn ni'n gwneud yn siŵr bod ein gwaith yn cefnogi nodau **lles** Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru.



Mae **lles** yn meddwl iechyd, hapusrwydd a theimlo'n dda yn gyffredinol.



Mae'r nodau hyn yn helpu Cymru i fod yn

- gryf
- cyfartal
- iach
- cyfoethog
- cyfrifol
- ac i gael iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig cryf.



Gwneud ein gwasanaethau yn well



Fe ofynnwn ni i 3,500 o bobl beth maen nhw'n feddwl am Gyrfa Cymru. Fe siaradon ni â

- phobl ifainc
- rhieni a gofalwyr
- staff yng Ngyrfa Cymru
- busnesau
- athrawon
- darparwyr hyfforddiant a cholegau



Fe ddysgon ni fod eisiau help ar bobl oedd â phenderfyniadau mawr am waith a gyrfaoedd. Er enghraifft, penderfynu pa bynciau i'w hastudio.



Fe ddysgon ni fod pobl yn hoffi cael cyngor ynghylch gyrfaedd wyneb yn wyneb.



Fe ddysgon ni fod eisiau mwy o gyswllt â Gyrfa Cymru ar rieni a gofalmwyr. Mae arnyn nhw eisiau mwy o brofiad gwaith i bobl ifainc hefyd.



Byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth hon i wneud ein gwasanaethau y gorau y gallan nhw fod.

Croeso
Welcome



Gyrfa Cymru
Careers Wales

Gweithio'n ddigidol



Yng Ngyrfa Cymru mae arnon ni eisiau gwneud yn siŵr bod pawb yn medru cael mynediad at ein gwybodaeth ar gyfrifiadur neu declyn digidol arall fel ffonau symudol.



Rydyn ni'n gwybod nad oes gan bawb fynediad at declyn digidol. Byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod pobl yn medru cael mynediad at ein gwybodaeth ryw ffordd arall.



Byddwn ni'n newid ein gwefan Gyrfa Cymru i wneud yn siŵr bod pobl yn medru cael mynediad at gyngor a gwybodaeth am yrfaeodd yn hawdd.



Byddwn ni'n dal ati i weithio ar ein gwybodaeth ddigidol am yrfaeodd i'w wneud yn well o hyd.



Byddwn ni'n cefnogi pobl i ddod o hyd i hyfforddiant i'w helpu i gael y medrau digidol sydd eu hangen arnyn nhw ar gyfer y dyfodol.



Byddwn ni'n dysgu o dechnoleg i wneud yn siŵr bod ein gwasanaethau yn dal i wella.

Cefnogi Llywodraeth Cymru



Bydd ein gweledigaeth newydd yn cefnogi cynlluniau Llywodraeth Cymru i



1. wneud yn siŵr bod pawb yn medru cael mynediad at gyngor ar yrfaedd



2. helpu pobl i wybod sut i gael medrau digidol i helpu gyda gwaith a bywyd bob dydd



3. helpu ysgolion i gyflwyno'r **cwricwlwm**

Mae **cwricwlwm** yn meddwl cynllun o beth i'w ddysgu.



4. helpu pobl i ddod o hyd i swyddi a'u cadw



5. gweithio gyda phobl ag anghenion ychwanegol



6. cefnogi pobl i siarad Cymraeg



7. cynnig y gwasanaeth digidol gorau i bobl



Cefnogi pobl o bob oed



Rydyn ni'n gwybod nad yw pobl yn dysgu yn yr un ffordd.



Rydyn ni'n gwybod bod gan bobl wahanol heriau ar wahanol adegau yn eu bywydau.



Dyma pam rydyn ni'n cefnogi pobl o bob oed ac yn helpu pryd bynnag y bydd ar rywun ei angen.



Rydyn ni'n rhannu ein cyngor a'n gwybodaeth am yrfaeodd gyda:

- rhieni, gofalwyr a phlant mewn **ysgolion cynradd**
- rhieni, gofalwyr a phlant mewn **ysgolion uwchradd**
- pobl ifainc **16-18 oed**
- **oedolion.**



Gweithio gyda phobl eraill



Rydyn ni'n deall ei bod hi'n bwysig i ni weithio gyda mudiadau eraill yng Nghymru i gyrraedd ein nodau.



Er mwyn cefnogi plant a phobl ifainc ar draws Cymru gyfan byddwn ni'n gweithio'n agos gydag

- ysgolion a cholegau
- pobl sy'n darparu hyfforddiant
- cyflogwyr
- busnesau
- cyngorau
- elusennau



Byddwn ni'n gweithio'n galed i ddod o hyd i fusnesau a mudiadau newydd i weithio ar draws Cymru gyfan. Mae hyn yn cynnwys ardaloedd gwledig iawn.



Mae hyn yn dda i blant, pobl ifainc ac oedolion. Ond mae'n dda i gymunedau lleol hefyd.

Cynnwys pawb



Ein gweledigaeth yw creu dyfodol mwy disglair i bawb yng Nghymru. Felly mae gwneud yn siŵr bod ein gwasanaethau yn haws cael gafael arnyn nhw yn bwysig iawn.



Rydyn ni'n cefnogi pobl i ddod dros unrhyw broblemau sydd ganddyn nhw wrth iddyn nhw geisio cael mynediad at ein gwasanaeth gyrfaedd. Er enghraifft, rydyn ni'n gweithio gyda:



- charchardai i roi cyngor ar yrfaedd i bobl cyn iddyn nhw adael y carchar.



- ysgolion i helpu plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.



- plant sy'n cael eu haddysgu gartref.



- mudiadau i wneud yn siŵr bod pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig ddim yn cael rhwystrau ychwanegol.



- mudiadau eraill i gyfieithu ein gwybodaeth i ddiwygiau hawdd eu defnyddio fel sain, fideo a hawdd ei ddeall.

Gwneud yn siŵr bod ein gwasanaethau yn gweithio'n dda



Yn y pum mlynedd nesaf byddwn ni'n edrych pa effaith y mae ein gwasanaethau yn ei gael ar bobl yng Nghymru.



Byddwn ni'n ymchwilio i ffyrdd o ddelio â phroblemau arbennig. Er enghraifft:



- gwneud y nifer o bobl sydd heb waith yn llai



- helpu pobl i gael medrau digidol



- helpu pobl i ddod o hyd i hyfforddiant



- helpu pobl i gael gwaith gwirfoddoli



Byddwn ni'n gweithio'n agos gydag ymchwilwyr i wneud yn siŵr ein bod ni'n defnyddio'r wybodaeth hon i wneud ein gwasanaethau yn well.



Byddwn ni'n rhannu ein syniadau â gwasanaethau gyrfaedd ac **ymchwilwyr** o amgylch y byd.



Mae **ymchwiliwr** yn rhywun sy'n chwilio am wybodaeth newydd am rywbeth.

Geiriau anodd

Brexit

Brexit yw'r broses sy'n digwydd wrth i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd

Canlyniad

Canlyniad yw beth y gall rhywun ei ddisgwyl oddi wrth ein gwaith.

Cwricwlwm

Mae cwricwlwm yn meddwl cynllun o beth i'w ddysgu.

Cyfrifol

Mae cyfrifol yn meddwl ymddwyn yn synhwyrol ac yn annibynnol.

Gyrfa

Mae gyrfa yn waith neu'n fwy nag un gwaith mae rhywun yn ei wneud am amser hir yn ystod eu bywyd

Lles

Mae lles yn meddwl iechyd, hapusrwydd a theimlo'n dda yn gyffredinol.

Ymchwiliwr

Mae ymchwiliwr yn rhywun sy'n chwilio am wybodaeth newydd am rywbeth.

